| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cofnodion **Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangrannog** a gynhaliwyd drwy fynychu o bell, ar nos Lun, 6ed o Rhagfyr 2021. | | Minutes of **Llangrannog Community Council** Meeting held remotely on Monday, 6th of December 2021. |
| | **YN BRESENNOL:** Cynghorydd Gari Jones (Cadeirydd) Cyngh Wendy Roberts, Lynn Davies, Cynyr Ifan, Steffan Jenkins, Gareth Jones, Deio Evans, Heledd Clayton, Morlais Davies a'r Cynghorydd Sir Gwyn James | | **PRESENT:** Councillor Gari Jones (Chair) Councillors Wendy Roberts, Lynn Davies, Cynyr Ifan, Steffan Jenkins, Gareth Jones, Deio Evans, Heledd Clayton, Morlais Davies and Gwyn James |
| | **(7.30yh – 9.30yh)** | | **(7.30pm –9.30pm)** |
| 69 | **Ymddiheuriadau**<br>Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorydd Mair Evans. | 69 | **Apologies**<br>Councillor Mair Evans sent her apologies. |
| 70 | **Datgelu Buddiannau Personol/Buddiannau sy'n Rhagfarnu** | 70 | **Disclosure of Personal Interest/Prejudicial Interest** |
| 71 | **Cadarnhau Cofnodion cyfarfod 1af o Dachwedd**<br>79.01 Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a cynhaliwyd ar y 1af o Dachwedd yn gofnod cywir. | 71 | **Minutes of the Meeting held on 1af o Dachwedd**<br>79.01 The minutes of the meeting held on 1st of November were confirmed as a true record. |
| 72 | **Materion yn codi**<br>53.02 Clerc yn aros am Diweddariad wrth y Cyngor Sir.<br>53.03 Bydd y Cyngh Cynyr Ifan yn ceisio cysylltu gyda'r perchennog<br>65.03 Dim Diweddariad eto<br>65.06 Dim Diweddariad eto | 72 | **Matters arising**<br>53.02 Clerk waiting for an update from County Council**.**<br>53.03 Cllr Cynyr Ifan will try to contact the owner.<br>65.03 No update<br>65.06 No update |
| 73 | **Adroddiad y Cynghorydd Sir**<br>73.01 Cyngor Sir wedi dechrau ystyried cynllun 'rent to buy' ar gyfer pobol ifanc y Sir. Aros i'r cynnig fynd at y Cyngor llawn I'w hystyried. | 73 | **County Councillor's Report**<br>73.01 County Council have been considering a rent to buy scheme for young people within the County. We're waiting for the proposal to go to full council for further consideration. |
| 74 | **Cyllid**<br>74.01 Cyflog Clerc Rhagfyr- £142.12<br>74.02 HMRC Rhagfyr - £26.60<br>74.03 Inc I'r printer - £54.84<br>74.04 D.E.Owen - £4,068.00<br>74.05 Mr Flag - £152.45 | 74 | **Finance**<br>74.01 Clerk salary December - £142.14<br>74.02 HMRC December- £26.60<br>74.03 Ink for printer - £54.84<br>74.04 D.E.Owen - £4,068.00<br>74.05 Mr Flag - £152.45 |

75 **Ceisiadau Cynllunio**

A210976 Bronallt, Llangrannog – dim gwrthwynebiad
A211042 Plas y Ddraig – dim gwrthwynebiad

75 **Planning Applications**

A210976 Bronallt, Llangrannog – no objections
A211042 Plas y Ddraig – no objections

76 **Ceisiadau am gymorth ariannol**

Dim ceisiadau

76 **Request for financial assistance**

No requests

77 **Gohebiaeth**

77.01 Praesept 2022-2023, CYTUNWYD i cadw’r praesept ar ei gyfradd presennol.
77.02 Maes Parcio, Llangrannog – CYTUNWYD i ddiolch i Mr Williams am ei diweddariad diweddar ac mi fyddwn yn gweithio ar y cyd gyda’r Pwyllgor Lles. Clerc i cysylltu gyda Mr Williams i weld y camau nesaf sydd angen i ni ddilyn. Clerc hefyd i cysylltu gyda’r Adran Cynllunio i ofyn os eisiau caniatad cynllunio arnom i rhoi arwydd tua maint A3 tu allan i fynedfa y maes parcio.
77.03 Diweddariad Penlon, Llangrannog – wedi ebostio at Cynghorwyr cyn y cyfarfod.
77.04 Coed rhwng Eglwys Blaencelyn a Castellmyn – clerc i adrodd hwn trwy Clic

77.05 Ffynon Fair, Llangrannog – dim Diweddariad eto.
77.06 Gwagu gwteri ar bwys llwybr cyhoeddus tai Cyngor yn Pontgarreg ac hefyd yn Pant, Llangrannog yn dilyn digwyddiad 30/10/2021 – clerc i adrodd hyn trwy Clic.

77.07 Gwariant Adran 137 y Terfyn ar Gyfer 2022-23 – wedi nodi
77.08 Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 – Diweddariad Pwysig gan y Gweinidog Newid Hinsawdd – wedi nodi.
77.09 Ymgyngoriad ar ddeddfwriaeth a pholisi cynllunio ar gyfer ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr – wedi nodi.
77.10 Diweddariad Ombwdsmon – wedi rhannu gyda’r Cynghorwyr cyn y cyfarfod.

77 **Correspondence**

77.01 Precept 2022-2023 - it was AGREED to keep the precept at its current rate.

77.02 Car Park, Llangrannog - it was AGREED to thank Mr Williams for his latest update, the Community Council will work alongside the Welfare Committee. Clerk to contact Mr Williams to discuss the next steps to move forward. Clerk also to contact Planning department to seek advice regarding putting a new sign roughly A3 outside the main entrance of the car park.

77.03 Update on Penlon, Llangrannog – update sent to Councillors prior to meeting.

77.04 Trees between Blaencelyn Church and Castellmyn– clerk to report this via Clic.

77.05 Ffynon Fair, Llangrannog – no update as yet.
77.06 Empty the gutters near the public footpath along the Council houses in Pontgarreg. Also, to empty the gutters in Pant, Llangrannog following an incident 30/10/2021 – Clerk to report this via Clic.

77.07 Discretionary Expenditure Limit for 2022-23 – item noted.
77.08 Technical Advice Note (TAN) 15 – Important Update from the Minister for Climate Change – item noted.

77.09 Consultation on planning legislation and policy for second homes and short-term holiday lets – item noted.
77.10 – Ombudsman update – shared with Councillors via email prior to meeting.

78 **Materion i’w drafod ar agenda y cyfarfod nesaf**

Hwyluso cyfarfodydd – Mynegodd y Cynghorydd Wendy Roberts fod y Cynghorydd Lynn Davies wedi gadael y cyfarfod 30 munud yn ôl oherwydd

78 Matters to discuss on next month’s agenda

Facilitating meetings – Cllr Wendy Roberts expressed that Cllr Lynn Davies had left the meeting 30minutes ago due to not hearing much over the phone, Cllr Davies doesn’t

nad oedd yn clywed llawer dros y ffôn, nid oes gan y Cynghorydd Davies y defnydd o Zoom. Cynhaliwyd trafodaethau am Neuadd Pontgarreg ond nid ydynt yn gallu cael WIFI ar hyn o bryd oherwydd problemau gyda chael cod post ar gyfer y lleoliad. Awgrymodd y Cynghorydd Roberts fod gwersyll yr Urdd, Llangrannog yn ddewis arall. Eglurodd hefyd wrth y cyngor y byddai cael WIFI ar gyfer y neuadd yn gostus i bwyllgor y Neuadd a hefyd yn broses hir nad yw wedi dechrau eto. CYTUWNYD gall y clerc dechrau paratoi asesiad risg ar gyfer dychwelyd i cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Mi fydd y cyfarfod nesaf yn parhau ar Zoom.

have the use of Zoom. Discussions held about Neuadd Pontgarreg but they are unable to get WIFI at present due to issues with getting a postcode for the location. Cllr Roberts suggested Urdd camp, Llangrannog as an alternative. She also explained to the council that getting WIFI for the hall will be costly for the Hall committee and also a lengthy process which hasn't begun yet. It was AGREED that the clerk can begin to look into starting the risk assessment for returning to face to face meetings. The next meeting will continue to be held through Zoom.

79 **Trefniadau'r Cyfarfod Nesaf**

Cyfarfod nesaf nos Lun 10fed o Ionawr 7.30yh trwy 'Zoom'

79 **Arrangement for next meeting**

Next meeting to be held on Monday 10$^{th}$ of January through 'Zoom'